Gwasanaethau Anabledd
Prifysgol Bangor

# Cwestiynau Cyffredin

## Myfyrwyr sy’n derbyn cefnogaeth cymryd nodiadau

**Sut byddaf i’n cysylltu â fy nghymerwr/cymerwyr nodiadau?**

- Byddwch yn derbyn eu cyfeiriad e-bost. Byddant yn derbyn eich cyfeiriad e-bost prifysgol a'r llun sydd ar eich cerdyn llyfrgell.
- Unwaith y bydd eich cymerwr/cymerwyr nodiadau wedi cael eu pennu, gallwch fod mewn cysylltiad e-bost â'ch gilydd.

**Ydw i’n eistedd gyda nhw?**

- Eich dewis chi yw hynny. Rhowch wybod i’r sawl sy’n cymryd eich nodiadau beth fyddai orau gennych.

**Ym mha ddosbarthiadau bydd cymerwr nodiadau yn bresennol?**

- Dim ond mewn darlithoedd fel rheol. Yr unig adeg y byddwch yn cael rhywun i gymryd nodiadau mewn seminarau neu diwtorialau yw os argymhellwyd hyn yn benodol yn eich adroddiad LMA.

**Beth yw eu swyddogaethau?**

- Mae cymerwyr nodiadau wedi cael eu hyfforddi i ysgrifennu nodiadau fel pe baent yn fyfyrwyr yn y ddarlith. Mae hyn yn golygu nad oes disgwyl i gymerwyr nodiadau ysgrifennu nodiadau air am air a fyddai’n arwain at bentwr o nodiadau heb unrhyw arwydd o ba rannau sy'n berthnasol. Yn hytrach, byddant yn ysgrifennu nodiadau am yr hyn maent yn meddwl sy'n berthnasol i'ch cwrs. Gan fod y sgil o gymryd nodiadau yn oddrychol, efallai na fydd yn cyfateb yn union i’r hyn yr ydych chi’n ei feddwl sy’n bwysig neu’n hanfodol, ac os felly dylech gysylltu â nhw i adael iddynt wybod.

**Pwy fydd fy nghymerwr nodiadau?**

- Yn gyffredinol, graddedigion neu fyfyrwyr ôl-radd yw'r cymerwyr nodiadau. Maent i gyd wedi derbyn hyfforddiant i gymryd nodiadau.
- Caiff myfyrwyr a chymerwyr nodiadau eu paru yn ôl maes pwnc a phryd maent ar gael o ran  amserlen. Mae'n debygol y bydd gennych fwy nag un cymerwr nodiadau.
- Mae’r Gwasanaethau Anabledd yn darparu hyfforddiant a chanllawiau sylfaenol i gymerwyr nodiadau, ac yn gwirio darpar gymerwyr nodiadau i sicrhau lefel

sylfaenol o gymhwysedd wrth gymryd nodiadau. Anogir myfyrwyr i gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r cymerwyr nodiadau a/neu'r Gwasanaethau Anabledd i sicrhau rheoli ansawdd.

**Ym mha ddiwyg y byddaf yn derbyn y nodiadau?**

- Oni bai fod nodiadau wedi eu teipio wedi cael eu hargymell yn eich asesiad LMA, byddwch fwy na thebyg yn derbyn nodiadau mewn llawysgrifen. Anfonir y nodiadau atoch yn electronig. Gall fod amrywiad yn y nodiadau oherwydd dulliau dysgu'r darlithydd, natur y cwrs, cyflymder y ddarlith, terminoleg dechnegol a ffactorau perthnasol eraill.

**Pa mor fuan ddylwn i dderbyn fy nodiadau?**

- Dylech dderbyn yr holl nodiadau'n electronig i'ch cyfeiriad e-bost Bangor o fewn 24 awr o'r ddarlith.
- Gall fod oedi ar gyfer darlithoedd sy'n cynnwys diagramau, symbolau gwyddonol neu fformiwlâu mathemategol, gan y bydd anhawster wrth gofnodi'r rhain yn electronig gan ddefnyddio bysellfwrdd cyfrifiadur confensiynol. Bydd eich cymerwr nodiadau yn rhoi gwybod i chi ddim hwyrach na 24 awr ar ôl y ddarlith os mai dyma'r achos.

**Beth os bydd oedi â'r nodiadau neu os byddant yn anfoddhaol?**

- Rhowch adborth ar unwaith i'r sawl sy'n cymryd nodiadau, oherwydd efallai y byddant yn gallu gwella'r broblem.
- Os na fydd hyn yn gweithio, rhowch wybod i'r cydlynydd a fydd yn ceisio delio â'r broblem.

**Beth os nad ydw i'n hoffi cynllun neu arddull y nodiadau?**

- Rhowch adborth i'r sawl sy'n cymryd nodiadau, fel y gall y nodiadau gyd-fynd â'ch anghenion yn well.
- Os bydd y broblem yn parhau, rhowch wybod i'r cydlynydd.

**A ddylwn i ddibynnu'n llwyr ar nodiadau'r cymerwr nodiadau er mwyn llwyddo yn yr arholiad?**

- Na ddylech. Cynhyrchir nodiadau i gofnodi gwybodaeth ddefnyddiol yn ystod y darlithoedd i ategu sleidiau'r ddarlith a deunyddiau darllen eraill. Mae'n bwysig iawn bod myfyrwyr yn mynd i ddarlithoedd ac yn defnyddio'r holl adnoddau eraill sydd ar gael (e.e. sleidiau'r darlithoedd, seminarau/tiwtorialau, cyfarfodydd unigol gyda thiwtor, adrannau trafod, grwpiau astudio, astudiaeth bersonol, recordio

darlithoedd) - er mwyn gwella eu dysgu. Mae hyn yn wir am unrhyw fyfyriwr sy'n dilyn y cwrs.

**Beth ddylwn ei wneud os na fydd y cymerwr nodiadau yn dod i'r ddarlith?**

- Os nad oedd y ddarlith ar yr amserlen wreiddiol, efallai nad oedd y cymerwr nodiadau yn gwybod bod y ddarlith wedi ei haildrefnu neu ei bod yn ddarlith ychwanegol.
- Bydd y Gwasanaethau Anabledd yn gwneud pob ymdrech resymol a phosibl i sicrhau gwasanaeth ar gyfer pob darlith, ond gall fod eithriadau mewn amgylchiadau annisgwyl lle nad oes cymerwr nodiadau mewn darlith ac nad yw'r Gwasanaethau Anabledd yn gallu cael nodiadau ar gyfer y sesiwn honno o ffynhonnell arall. Mewn achos o'r fath anogir y myfyriwr i gysylltu â myfyrwyr eraill i gael copïau o'u nodiadau neu i gwrdd â'r darlithydd i adolygu'r deunydd. Unwaith eto mae'n bwysig bod y myfyriwr yn defnyddio eu holl adnoddau i wella eu dysgu ac i ddal i fyny gyda gwaith darllen y cwrs a chynnwys y darlithoedd.

**Mae'r darlithydd eisiau gwybod ar gyfer pwy y mae'r gweithiwr cefnogi'n cymryd nodiadau. Gall y gweithiwr cefnogi roi fy enw?**

- Mae'r Cod Ymarfer yn ymrwymo'r cymerwr nodiadau i gynnal cyfrinachedd ac felly ni ddylai ddatgelu enw myfyriwr.
- Efallai bydd raid i'r cymerwr nodiadau egluro eu rôl i'r darlithydd ond ni fydd yn enwi'r myfyriwr y mae'n ei gefnogi. Gallech gyflwyno eich cymerwr nodiadau i'r darlithydd:  eich dewis chi yw hynny.
- Mae rhestr ddosbarth y darlithydd yn nodi 'addasiadau rhesymol' megis cymryd nodiadau.

**Nid wyf yn gallu mynd i'r ddarlith. Beth ddylwn ei wneud?**

- Rhowch wybod i'r cydlynydd cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â'ch gweithiwr cefnogi. Efallai y byddwch yn dal i allu derbyn nodiadau'r ddarlith. **Os byddwch yn absennol yn gyson heb unrhyw reswm dilys, neu'n absennol o fwy na 2 ddarlith yn olynol, yna gall y gwaith cefnogi gael ei dynnu'n ôl.**
- Os ydych yn gwybod y byddwch yn absennol o sesiwn sydd i ddod, rhowch gymaint o rybudd â phosibl i'r gweithiwr cefnogi a'r cydlynydd.

**A fydd y sawl sy'n cymryd nodiadau yn cael gwybod am newidiadau i ddarlithoedd gan fy ysgol academaidd?**

- Na fydd. Mae gennych fynediad at *Blackboard* a'r e-byst a anfonir gan eich Ysgol. Bydd arnoch angen pasio'r wybodaeth hon ymlaen i'r sawl sy'n cymryd nodiadau a'r cydlynydd.

- Rhowch wybod i’r cydlynydd cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â’ch gweithiwr cefnogi. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw rhoi gwybod i weithwyr cefnogi am newidiadau neu ddarlithoedd wedi’u canslo – felly os na fydd eich gweithiwr cefnogi yn gwybod am y newidiadau hyn ni fydd yn mynd i’r ddarlith.

**A allaf rannu fy nodiadau gyda fy nghyd-fyfyrwyr?**

- Na ellwch. Mae gennych angen a aseswyd ar gyfer y nodiadau hyn. Os byddwch yn eu rhoi i gyd-fyfyrwyr yn y dosbarth bydd hynny'n cyfaddawdu'r Cynllun.

**Nid wyf yn fodlon bellach gyda fy ngweithiwr cefnogi ac rwyf eisiau ei newid. Beth ddylwn ei wneud?**

- Bydd angen i chi drafod hyn gyda’r Cydlynydd i geisio datrys y mater. Dylai’r myfyriwr a’r gweithiwr cefnogi barhau fel arfer nes ceir ateb i’r anhawster.

**Sut caiff fy nghymerwr nodiadau ei dalu?**

- Cyflogir cymerwyr nodiadau drwy *Randstad Student Support*.
- Mae’n rhaid i chi gymeradwyo taflenni amser electronig eich cymerwr nodiadau i gadarnhau eich bod wedi derbyn y nodiadau. Os na fyddwch yn cymeradwyo’r gwaith, ni fydd y cymerwr nodiadau yn cael ei dalu. Caiff y cynllun ei ariannu drwy’r LMA. Os byddwch yn rhannu cymerwr nodiadau, caiff y gost ei rhannu rhwng lwfansau LMA.

**Mae gennyf ffrind yr hoffwn iddo/iddi weithredu fel fy ngweithiwr cefnogi. A allaf eu defnyddio nhw yn lle cynllun gweithwyr cefnogi'r Brifysgol?**

- Mae gennych hawl i drefnu eich cynorthwyydd anfeddygol eich hun - nid oes unrhyw reidrwydd arnoch i ddefnyddio gwasanaeth Prifysgol Bangor. Ond ni ellir dal y Brifysgol yn gyfrifol am wirio cefndir y bobl a ddefnyddiwch yn annibynnol nac ychwaith ei dal yn gyfrifol am unrhyw ddeddfwriaeth gyflogaeth sy'n ymwneud â'r bobl hyn. Byddwch yn gyfrifol am drefnu eu didyniadau cyflogaeth, megis treth ac Yswiriant Gwladol. Os oes gennych ffrind yr hoffech ei hurio i’ch cynorthwyo yna dylech gysylltu â'r cydlynydd.

**Rhaid i chi gadarnhau eich bod chi wedi derbyn y ddogfen Canllawiau sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithwyr Cefnogi, a'ch bod yn cytuno i gadw at y canllawiau.**

Cydlynydd Cymorth Anfeddygol
01248 383022
gwaithcefnogi@bangor.ac.uk